

## Templed ar gyfer Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

Mae'r Aseiad hwn o Effaith yn adlewyrchu'r sefyllfa polisi bresennol sy'n destun proses ymgynghori a chaiff ei ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad.

<b>Teitl a diben y polisi (amlinelliad cryno):</b>	<b>Rheoliadau Cynllunio Strategol (Cyfansoddiad Paneli a Gwariant Cymwys) (Cymru) 2016</b>
<b>Enw'r swyddog:</b>	<b>Gemma Christian</b>
<b>Adran:</b>	<b>Yr Adran Cyfoeth Naturiol</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>8 Rhagfyr 2015</b>
<b>Llofnod:</b>	

## 1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad.

**Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau datganedig (gan gynnwys y sawl y bwriedir iddynt gael budd), disgrifiad cyffredinol o sut y cyflawnir hyn, sut y mesurir llwyddiant, a'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

### Trosolwg o'r Rheoliadau

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac yn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a gaiff eu llunio gan Banel Cynllunio Strategol (Panel). Bydd Panel yn gorff cyhoeddus a dim ond un swyddogaeth fydd ganddo - llunio cynlluniau. Bydd ganddo statws corff corfforaethol a bydd yn cynnwys aelodau awdurdodau cynllunio lleol ac aelodau enwebedig o grwpiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Dim ond aelodau'r awdurdodau cynllunio lleol fydd â hawliau pleidleisio.

### *Cynlluniau Datblygu Strategol*

Cynllun datblygu ar gyfer ardal Cynllunio Strategol yw CDS a bydd yn ymdrin â materion gan gynnwys tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, seilwaith, mwynau a gwastraff sy'n berthnasol i nifer o awdurdodau cynllunio lleol. Bydd ymdrin â'r materion hyn yn y CDS yn sicrhau y cynllunnir ar eu cyfer mewn modd integredig a chyson. Mae'r rhain yn faterion y mae awdurdodau lleol wedi'i chael hi'n anodd ymdrin â hwy ar lefel leol wrth lunio CDLlau. Pennir darpariaeth tai ar gyfer CDLlau ar y lefel hon, a gall gynnwys y broses o nodi dyraniadau strategol ar gyfer defnyddiau sydd uwchlaw trothwyon penodol.

## *Paneli Cynllunio Strategol*

Corff llunio cynlluniau yn unig yw'r Panel ac nid yw'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd yn ofynnol i'r Panel wneud penderfyniadau ar drefniadau llywodraethu'r Panel megis enwebu aelodau, cytuno ar reolau sefydlog, cyllid, penodi staff technegol ac ati. Bydd hefyd yn ofynnol i'r Panel wneud penderfyniadau ar y broses o lunio'r CDS, gan gynnwys p'un a yw CDS yn barod ar gyfer archwiliad annibynnol. Nid oes yn rhaid i'r Panel gael cytundeb yr ACLlau sy'n rhan ohono.

### **Amcanion Polisi'r cynigion**

Mae'r cynigion yn adlewyrchu ein hymrwymiad polisi i gynyddu nifer y menywod a gaiff eu cynrychioli ymhlith aelodau awdurdodau cynllunio lleol ar Baneli. Mae'r cynigion hefyd yn amlinellu yr hyn sy'n gyfystyr â gwariant cymwys at ddibenion y trefniadau ariannol sy'n berthnasol i Banel.

Mae'r prif gynigion fel a ganlyn:

#### Cyfansoddiad Paneli Cynllunio Strategol

- Gofyniad i gynyddu nifer y menywod a gynrychiolir drwy bennu isafswm o 40% o fenywod a 40% o ddynion ymhlith aelodau awdurdodau lleol; Mae'r 20% sy'n weddill yn golygu y gall cyfansoddiad pob PCS adlewyrchu amgylchiadau lleol;
- Gofyniad i awdurdodau lleol gydweithio i gyflawni'r gofyniad hwn o ran cyfansoddiad y panel a pharhau i'w adolygu;
- Gofyniad i'r Panel adrodd i Weinidogion Cymru ar gydymffurfio â'r gofynion o ran cyfansoddiad pan nad yw'n cwrdd â'r gofynion o ran cydymffurfio. Dylai'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi;
- Pŵer ymyrryd i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd i unrhyw un o'r awdurdodau cynllunio lleol os nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cyfansoddiad y panel;
- Atal hawliau pleidleisio aelodau o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol nad ydynt yn cydymffurfio os nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion o ran cyfansoddiad y panel;
- Pŵer i sicrhau bod unrhyw beth y mae'r panel yn ei wneud yn parhau i fod yn ddilys.

Bydd rheoliadau sefydlu ar wahân ar gyfer pob Panel yn pennu nifer yr aelodau awdurdod lleol ar gyfer pob awdurdod sy'n rhan o'r Panel. Wedyn, cyfrifoldeb pob awdurdod lleol fydd penodi'r aelod (aelodau). Yr

aelodau cymwys o fewn awdurdod lleol yw'r rheini sy'n cynrychioli ward etholiadol yn ardal y Panel ac unrhyw faer etholedig, aelod gweithredol etholedig ac yn achos Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, unrhyw aelod o'r awdurdod hwnnw neu'r bwrdd ar y cyd.

### Materion Ariannol

- Diffiniad o wariant cymwys, gan gynnwys yr hyn a gaiff ei ariannu gan yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r Panel a beth nas cynhwysir. Darpariaeth yn nodi y gellir ariannu gweithgareddau cymwys gan daliadau gan yr ACLlau sy'n rhan o'r Panel ar yr amod y gellir cyfiawnhau bod angen ymgymryd â'r gweithgareddau hynny er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Panel.

Caiff y Paneli Cynllunio Strategol eu hariannu gan yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n rhan ohonynt; mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r CDSau yn golygu y caiff gwaith sy'n gysylltiedig â'r CDLI ei ailddosbarthu ac o ganlyniad, ni ddylid bod unrhyw gostau ychwanegol. Ceir cyfleoedd i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau arbedion drwy'r gwaith hwn. Felly, mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar elfennau cyfansoddiad y cynigion yn hytrach na'r materion ariannol.

### **Yr Effaith Fwriadedig**

Effaith fwriadedig y cynigion yw cynyddu nifer y menywod a gynrychiolir ar Baneli sy'n cynnwys aelodau awdurdodau lleol. Diben hyn yw sicrhau bod y Panel yn adlewyrchu'r gymuned a wasanaethir ganddo o ganlyniad i gynyddu amrywiaeth ei aelodau. Bydd y diffiniad o wariant cymwys yn darparu eglurder o ran yr hyn a gaiff ei ariannu gan yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n rhan o'r Panel ac yn darparu hyblygrwydd er mwyn sicrhau y gellir cynnwys unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

### **Adolygu Polisiâu/Deddfwriaeth**

Caiff y cynigion eu gwerthuso drwy gyflwyno Paneli; caiff eu gallu i fodloni'r ddyletswydd o ran cyfansoddiad ei fonitro drwy'r system adrodd ac adborth gan y Paneli am y materion ariannol.

### **Amserlen**

Ar ôl dadansoddi'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried cyflwyno rheoliadau gyda'r bwriad y daw'r rheoliadau hynny i rym yn ystod gwanwyn 2016.

**2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at Atodiad A y canllawiau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi. Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol? □**

Ymgynghorwyd ar y papur ymgynghori – Cynigion sy'n ymwneud â Rheoliadau Paneli Cynllunio Strategol; cyfansoddiad a materion ariannol ochr yn ochr âg Asesiad drafft hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb am gyfnod o 12 wythnos. Roedd yr ymgynghoriad yn targedu amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig a'r grwpiau hynny sy'n cynrychioli grwpiau gwarchoddedig.

**3. Mae'n rhaid i'ch penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth hon e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. Ydych chi o'r farn fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth?**

Mae'r sail dystiolaeth mewn perthynas â'r cynigion i gyflwyno cyfansoddiadau rhyw ar gyfer Cynllunio Strategol yn cynnwys y canlynol:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol; Cyfrifiad Cenedlaethol Cynghorwyr Awdurdodau Lleol 2013 - Lloegr
- Cyfrifiad Cenedlaethol Cynghorwyr Awdurdodau Lleol 2004 Cymru - trosolwg
- Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012
- Pwy sy'n rhedeg Cymru? Diweddariad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2012, y daith tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Pwy sy'n rhedeg Cymru? 2014 Degawd coll - dim newid. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Datganiad ar y Cyd y Llywydd, 2014
- Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru Rhagfyr 2014; Lesley Griffiths, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

- Astudiaeth Achos Penodiadau Cyhoeddus Chwaraeon Cymru Rhagfyr 2012
- Diweddariad ar Astudiaeth Achos Penodiadau Cyhoeddus Chwaraeon Cymru Ebrill 2015
- Arolwg blynyddol o benodiadau ac ailbenodiadau gweinidogol i fyrddau cyrff cyhoeddus a reoleiddir gan y comisiynydd penodiadau cyhoeddus 2013-14
- Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus 2012-13
- Women on Board: Quality through Diversity, ymgynghoriad gan Lywodraeth yr Alban ar gyflwyno cwtâu rhyw ar fyrddau cyhoeddus 2014
- Overcoming Barriers to equality and diversity representation on public, private and third sector boards in Scotland. Y sefydliad ymchwil cyflogaeth, Prifysgol Napier Caeredin 2014
- Cyngor cenedlaethol y mudiadau gwirfoddol - fframwaith tryloywder. Cydymffurfio neu egluro'r broses
- Ar ôl pwysu a mesur: sicrhau democratiaeth amrywiol mewn llywodraeth leol yng Nghymru - Adroddiad y grŵp arbenigwyr ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol 2014
- At ein gwasanaeth? Adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru.
- Welsh power report – women in public life. Mawrth 2013 Cymdeithas diwygio etholiadol Cymru.
- Deunydd cyfeirio - Spotlight on Wales – Women and local government
- [http://ec.europa.eu/justice/newsroom/gender-equality/news/121114\\_en.htm](http://ec.europa.eu/justice/newsroom/gender-equality/news/121114_en.htm)
- Y targed gwirfoddol presennol ar gyfer cwmnïau FTSE 100 yw 25%. Bydd cwmnïau FTSE 350 yn cael targed gwirfoddol newydd i sicrhau 33% o aelodau benywaidd erbyn 2020
- Papur RTPI – <http://www.rtpi.org.uk/briefing-room/rtpi-blog/making-it-happen-celebratinginternational-day/>
- Adroddiad Senedd y DU ar fenywod mewn bywyd cyhoeddus, pobl broffesiynol a'r ystafell fwrdd
- Adroddiad yn y Daily Telegraph:  
<http://www.telegraph.co.uk/finance/newsbysector/banksandfinance/11341816/Proof-that-women-in-boardrooms-quotas-work.html>

- Ymchwil Llywodraeth y DU – Women on Boards, 2011:  
[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/31480/11-745-women-on-boards.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/31480/11-745-women-on-boards.pdf)
- <http://www.wecf.eu/download/2014/July/WECFAarhusPositionpaper-Gender.pdf>
- [Cyflwynwyd amrywiaeth o wybodaeth am awdurdodau cynllunio lleol Cymru ee nifer y menywod sy'n gynghorwyr ac sy'n aelodau o'r pwyllgorau cynllunio etc.](#)

Cynhaliwyd astudiaeth ddesg er mwyn pennu arferion presennol o fewn cyrff cyhoeddus a chynyddu nifer y menywod a gynrychiolir. Roedd yn cynnwys asesiad o enghreifftiau Cenedlaethol, Ewropeaidd a Rhyngwladol.

Nid oes cyrff cyfatebol hysbys i'r Paneli Cynllunio Strategol yng Nghymru ac felly nid yw cyfansoddiad yr aelodau yn hysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn hanesyddol cydnabyddir y bu'n anodd sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn llywodraeth leol. Mae'r papur ymgynghori wedi amlinellu'r sail dystiolaeth ac wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan randdeiliaid.



## Effaith

Llenwch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at ddogfen gyfarwyddyd yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am fwy o wybodaeth).

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â mynd ymlaen i wneud Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nodwch unrhyw fylchau rydych chi wedi'u nodi yn y dystiolaeth ac esboniwch sut byddwch/a ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

4.1 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?

Oedran	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Pobl iau <i>(Plant a phobl ifanc, hyd at 18 oed)</i>			X	Dim ond i Gynghorwyr mewn Awdurdodau Lleol y bydd y polisi ar gyfer cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn berthnasol. Ni fydd cyfansoddiad Paneli yn cael unrhyw effaith ar wahanol grwpiau oedran er y bydd sicrhau aelodaeth fwy amrywiol yn golygu y bydd y panel yn gwasanaethu'r gymuned a gynrychiolir ganddo yn well.
Pobl 18-50 oed			X	
Pobl hŷn (50+ oed)			X	



## 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

Nam	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Nam ar y golwg			X	Dim ond i Gynghorwyr mewn Awdurdodau Lleol y bydd y polisi ar gyfer cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn berthnasol. Mae'n bosibl y bydd gan y Cynghorwyr hynny Anabledd ond bydd pob Panel yn dilyn polisiâu recriwtio a mynediad at waith eu priod awdurdodau lleol.
Nam ar y clyw			X	
Anabledd corfforol			X	
Anabledd dysgu			X	
Problem iechyd meddwl			X	
Namau eraill			X	

## 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu fenyw)?

Rhyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Dynion	X			Mae'r polisi hwn yn pennu isafswm canran o 40% o fenywod a 40% o ddynion o ran aelodau awdurdodau lleol gan ddarparu hyblygrwydd wrth roi'r polisi ar waith
Menywod	X			

				<p>ond gan sicrhau effaith gyfartal ar ddynion a menywod. Mae'r 20% sy'n weddill yn golygu y gall cyfansoddiad pob Panel adlewyrchu amgylchiadau lleol.</p> <p>Rhagwelir y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchoddedig o ran rhyw a thrawsryw gan ei fod yn anelu at gynyddu nifer y menywod a gynrychiolir ar Baneli. Y dull gweithredu polisi a ddilynrir er mwyn cyflawni hyn yw pennu gofyniad o ran isafswm canran ar gyfer dynion a menywod ar Baneli a fyddai'n gyson ar draws pob Panel ac yn darparu hyblygrwydd wrth gyflawni.</p>
--	--	--	--	--

#### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsryweddol?

Trawsryweddol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael

				<b>effaith?</b>
	<b>X</b>			Mae'r polisi hwn yn pennu isafswm canran o 40% o fenywod a 40% o ddynion o ran aelodau awdurdodau lleol gan ddarparu hyblygrwydd wrth roi'r polisi ar waith ond gan sicrhau effaith gyfartal ar ddynion a menywod. Yn ogystal, mae'r hyblygrwydd o 20% o ran cyfansoddiad y Panel yn golygu y bydd pobl Drawsryweddol yn gallu trawsnewid gan barhau â'u rôl ar y panel.

#### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

<b>Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	<b>Cadarnhaol</b>	<b>Negyddol</b>	<b>Dim / Prin ddim</b>	<b>Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?</b>
Priodas			<b>X</b>	Dim ond i Gynghorwyr mewn Awdurdodau Lleol

Partneriaeth Sifil			<b>X</b>	y bydd y polisi ar gyfer cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn berthnasol. Ni fydd statws ymgeiswyr o ran cydberthnasau yn effeithio ar y broses benodi a ddefnyddir gan y Panel.
--------------------	--	--	----------	--

#### 4.6 Oherwydd beichiogrwydd neu famolaeth?

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Beichiogrwydd			X	Dim ond i Gynghorwyr mewn
Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni)			X	Awdurdodau Lleol y bydd y polisi ar gyfer cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn berthnasol. Ni fydd statws merch o ran beichiogrwydd neu famolaeth yn effeithio ar y broses benodi a ddefnyddir gan y Panel.

#### 4.7 Oherwydd hil?

Hil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Pobl o leiafrifoedd ethnig e.e. Asiaidd, Du,			X	Dim ond i Gynghorwyr mewn Awdurdodau Lleol y bydd y polisi ar

Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig)			X	gyfer cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn berthnasol. Mae'n bosibl y bydd y Cynghorwyr hynny yn rhan o hil leiafrifol ond bydd pob Panel yn dilyn polisiau recriwtio eu priod awdurdodau lleol.
Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid			X	
Sipsiwn a Theithwyr			X	
Mudwyr			X	
Erail			X	

#### 4.8 Oherwydd crefydd a chred neu ddiffyg cred?

Crefydd a chred neu ddiffyg cred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Gwahanol grwpiau crefyddol gan gynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindwiaid, Erail (nodwch)			X	Dim ond i Gynghorwyr mewn Awdurdodau Lleol y bydd y polisi ar gyfer cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn berthnasol. Ni fydd crefydd, credoau na diffyg cred yn effeithio ar y broses benodi a ddefnyddir gan y Panel.
Cred e.e. Dyneiddiaeth			X	
Diffyg cred			X	

#### 4.9 Oherwydd cyfeiriadedd rhywiol?

Cyfeiriadedd Rhywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Dynion hoyw			X	Dim ond i Gynghorwyr mewn Awdurdodau Lleol y bydd y polisi ar gyfer cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn berthnasol. Mae'n bosibl y bydd y Cynghorwyr hynny yn LHD ond bydd pob Panel yn dilyn polisiâu recriwtio eu priod awdurdodau lleol.
Lesbiaid			X	
Pobl ddeurywiol			X	

#### 4.10 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *Cyfeiriwch at bwynt 1.4 yn Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cyfarwyddyd i gael gwybodaeth bellach am Hawliau Dynol.*

Hawliau Dynol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
Hawliau Dynol gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd	X			Nod y polisi hwn yw cynyddu nifer y menywod a gynrychiolir ar Banel gan wneud hyn drwy bennu



Unedig				isafswm canran o 40% o aelodau awdurdodau lleol sy'n fenywod a gofyniad am o leiaf 40% o aelodau awdurdodau lleol sy'n ddynion. Mae'r dull gweithredu hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac yn sicrhau tegwch ar yr un pryd.
--------	--	--	--	--

**4.11 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith economaidd-gymdeithasol, yn enwedig pan fydd penderfyniadau yn cyfrannu at drechu tlodi neu y gallent gael effaith andwyol ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is?**

Effeithiau economaidd-gymdeithasol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
			X	Ni fydd y gofyniad o ran cyfansoddiad rhyw ar Baneli yn cael unrhyw effaith ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

**4.12 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy?**

Datblygu Cynaliadwy	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?

			X	Er na chaiff cyfansoddiad y paneli unrhyw effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy, fel corff cyhoeddus, bydd nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol i'r Paneli.
--	--	--	---	---

**4.13 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?**

Y Gymraeg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim / Prin ddim	Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith?
			X	Er na fydd cyfansoddiad y paneli yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, disgwylir i'r Paneli benodi gan ddefnyddio eu priod bolisiau Cymraeg priodol o hyd.

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol (ac eithrio rhai mân) ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchoddedig, llenwch Ran 2.***

***Dylech fynd yn syth i ran 2 a llofnodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb dim ond os nad oes unrhyw effeithiau neu fân effeithiau cadarnhaol neu negyddol.***

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

### **1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth rydych chi wedi'i chasglu a'i hystyried yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

#### **1.1 Sut y gallai neu sut mae'r polisi yn helpu i hybu / hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchoddedig.

Byddai'r cynigion o ran cyfansoddiad Paneli yn hyrwyddo ymdrechion i gynrychioli menywod ar Baneli ac yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff dynion a menywod eu trin yn gyfartal.

#### **1.2 Sut y gallai neu sut mae'r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?**

Mae'r cynigion yn awgrymu isafswm trothwy o 40% ar gyfer dynion a menywod felly mae'n trin dynion a menywod yn gyfartal ac nid yw'n rhoi un grŵp o dan anfantais o gymharu â'r llall. Caiff pob aelod a benodir gyda nodweddion gwarchoddedig eraill ei benodi'n deg gan ddefnyddio polisiâu penodi priodol yr awdurdod lleol a fyddai'n atal achosion o wahaniaethu anghyfreithlon.

#### **1.3 Sut y gallai neu sut mae'r polisi yn effeithio ar hybu / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Mae'r cynigion yn annog ymdrechion i gynrychioli menywod ymhlith aelodau awdurdodau lleol ar fyrddau. Drwy roi'r polisi hwn ar waith, byddai'r Panel (Paneli) yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu gan gyflwyno gwahanol safbwyntiau i'r broses o wneud penderfyniadau.

## 2. Cryfhau'r polisi

**2.1 Os yw'r polisi yn debygol o gael effaith negyddol ('effaith andwyol') ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig neu gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau dros hyn?**

**Beth yw'r newidiadau/camau ymarferol y gellid eu cymryd i leihau neu ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodir yn Rhan 1?**

Ystyrir na chaiff y polisi hwn unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw rai o'r grwpiau gwarchoddedig.

**2.2 Os na fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd i ddileu neu leddfu effeithiau negyddol / andwyol, rhowch gyfiawnhad dros hyn.**

**(Cofiwch fod yn rhaid newid neu ddiwygio'r polisi os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi.)**

DD/G

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

**Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**

Rhestrwch unrhyw waith dilynol fydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol etc).

Cynigir y bydd yn ofynnol i'r Paneli Iunio adroddiad a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru os na chaiff y ddyletswydd ei bodloni ar unrhyw adeg a rhoi rhesymau am hyn.

Caiff canlyniadau'r holl asesiadau o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 3

### Cynllun Gweithredu

Lle caiff effeithiau eu nodi, sut y byddwch yn lliniaru yn erbyn yr effaith a sut y caiff y camau gweithredu eu monitro.

<b>Beth yw'r cam gweithredu i liniaru'r effaith?</b>	<b>Perchennog y cam gweithredu</b>	<b>Dyddiad targed</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Sylwadau</b>
<b>Nid oes angen unrhyw gamau lliniaru.</b>				

#### 4. Datganiad

Mae'r polisi yn cael effaith sylweddol ar faterion cydraddoldeb

##### Y swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Enw: Gemma Christian

Adran: Yr Adran Cyfoeth Naturiol

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2015

Llofnod:

##### Pennaeth yr Is-adran (Cymeradwyo)

Enw: Neil Hemington

Teitl swydd ac adran: Pennaeth Cynllunio, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Yr Adran Cyfoeth Naturiol

Dyddiad: 8 Rhagfyr 2015

Llofnod:

Dyddiad Adolygu: Gorffennaf 2016